YSGOL BRYNREFAIL

CYNGERDD Y NADOLIG

Cynhaliwyd 'Cyngerdd y Nadolig' yn Eglwys Sant Padarn , Llanberis, ar nos Lun 12fed Rhagfyr 2011 a'r eglwys dan ei sang, er y tywydd anffafriol. Fe gafwyd naws hyfryd y Nadolig gydag eitemau unigol, ddeuawdau, gorawl a gan y seindorf. Fe gafodd y gynulleidfa, cymysgedd o rieni, ffrindiau a staff eu gwefreiddio gan y dalent oedd yn disgleirio a'r wefr ar wynebau'r disgyblion o gymryd eu rhan. Cafwyd casgliad gwirfoddol ar y noson, aeth eleni tuag at gronfa'r chweched dosbarth, i'w ddefnyddio ganddynt tuag at achosion da. Yn eu tro fe roddwyd £50 o'r arian tuag at gronfa Eglwys Sant Padarn.